# Pwyntiau Gweithredu

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol (yr Is-grŵp) | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 11 Hydref 2018 | Lleoliad: | Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth SY23 3UR |

**Yn bresennol:**
Zoe Henderson (Aelod a Chadeirydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC))
Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)
Sara Jenkins (Menter a Busnes)
Stephen Bradley (Dŵr Cymru)
Creighton Harvey (Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin)
Andrew Chambers (Llywodraeth Cymru)
Jeremy Frost (Llywodraeth Cymru)
James Dowling (Llywodraeth Cymru)
Luke Davies (Llywodraeth Cymru)
Kirsten Hughes (Hybu Cig Cymru
Geraint Weber (CNC)
Rob McCall (CNC)
Helen Haider (CNC)
Bob Vaughan (CNC)
Meinir Wigley (CNC)
Marc Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)
Brian Pawson (CNC)
Matt Lowe (CNC)

**Ymddiheuriadau:**
Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymru)
Rachel Lewis-Davies (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr)
Rhianne Jones (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad)
Jamie McCoy (AHDB)

**Yn bresennol**
Ian Roderick (Sefydliad Schumacher)

| Rhif: | Eitem | Pwynt gweithredu |
|---|---|---|

### 3. Dadansoddi Achosion Sylfaenol

Eglurodd Geraint Weber fod y cynnig i gynnal dadansoddiadau pellach o achosion sylfaenol llygredd amaethyddol yn cael ei drafod o dan yr argymhelliad cyntaf o fewn adroddiad interim Fforwm Rheoli Tir Cymru. Mae canfyddiad pawb o lygredd amaethyddol yn wahanol, ac mae gan Sefydliad Schumacher brofiad o'r math hwn o waith dadansoddi achosion sylfaenol.

Gwnaeth yr Is-grŵp drafod manteision cynnal dadansoddiadau o achosion sylfaenol drwy grwpiau o ffermwyr, yn hytrach nag o fewn sefydliadau Fforwm Rheoli Tir Cymru yn unig. Gallai grwpiau ffermio sy'n bodoli eisoes megis y rhai a ffurfiwyd o dan y rhaglen Agrisgôp gynnig cymorth arbennig o ddefnyddiol. Gall Cyswllt Ffermio helpu i ddod â thrawstoriad o ffermwyr at ei gilydd i gynnal dadansoddiadau o achosion sylfaenol, gan fod nifer o grwpiau Agrisgôp eisoes wedi ymrwymo i leihau llygredd amaethyddol.  Disgwylir y bydd prosiect Fforwm Rheoli Tir Cymru ar ddadansoddi achosion sylfaenol wedi cael i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

Eglurodd Ian Roderick fod Sefydliad Schumacher yn elusen ac yn gymrodoriaeth sy'n cynnwys tua 130 o academyddion ac arbenigwyr eraill sydd â phrofiad mewn cynaliadwyedd a meddwl trwy systemau. Mae'r pwyslais ar feddwl at y dyfodol ac adeiladu cydnerthedd. Mae elfen gymdeithasol gref i waith y Sefydliad sy'n cynnwys sbectrwm eang o feysydd pwnc.

Cafodd rhai o'r prif faterion sy'n effeithio ar ffermwyr ac a allai wedyn arwain at lygredd eu crynhoi yn ystod y drafodaeth. Mae'r rhain yn cynnwys problemau ariannol, cyfnodau estynedig o dywydd gwlyb, sydd i gyd yn effeithio ar y penderfyniadau mae ffermwyr yn eu gwneud wedyn. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cynnwys contractwyr yn y gwaith o ddadansoddi achosion sylfaenol, e.e. yn aml mae ffermwyr yn cael eu cyfyngu i daenu slyri pan fydd contractwyr ar gael, yn hytrach na'r adegau pan fydd yr amodau ar eu mwyaf addas.

Roedd Zoe Henderson yn credu bod y sefyllfa yn cyfateb i'r sefyllfa yn y sector cemegion. Ar un adeg roedd y sector hwn yn perfformio'n wael, yn peri llygredd ac yn beryglus, ond mae bellach yn llawer mwy diogel ac yn perfformio'n well o lawer.  Cafodd y gwelliannau a wnaed eu

hysgogi i raddau helaeth gan gystadleuaeth.

Trafododd yr Is-grŵp y ffordd y gall rhai ymddygiadau ymsefydlu'n gadarn. Er enghraifft, gall materion diwylliannol yrru ffermwyr i wneud penderfyniadau ar sail yr hyn mae ffermydd cyfagos yn eu hardal yn ei wneud, heb edrych yn bellach.

Mae angen sefydlu'r metrigau sy'n sail i'r prosiect Dadansoddi Achosion Sylfaenol yn gynnar. Fel rhan o gadw cwmpas y prosiect i raddfa y gellir ei rheoli, cytunwyd y byddai'r dadansoddiadau'n canolbwyntio ar achosion sylfaenol digwyddiadau llygredd yn y tarddle, yn hytrach nag edrych ar lygredd gwasgaredig.

***Pwynt gweithredu 1 – Dosbarthu cynnig y prosiect Dadansoddi Achosion Sylfaenol i aelodau'r Is-grŵp (Geraint Weber ac Ian Roderick)***

***Pwynt gweithredu 2 – Bydd Sara Jenkins yn darparu gwybodaeth ychwanegol am grwpiau Agrisôp a grwpiau trafod eraill Cyswllt Ffermio a allai gynorthwyo gyda'r prosiect Dadansoddi Achosion Sylfaenol.***

## 4. Diweddariad ar Ystadegau Llygredd Amaethyddol

Rhannodd Marc Williams rai ystadegau rhagarweiniol a oedd yn cymharu'r glawiad cyfartalog ag achosion o lygredd amaethyddol. Ar yr olwg gyntaf roedd y graff yn awgrymu bod cydberthnasau cadarnhaol a negyddol. Mae angen rhagor o waith i benderfynu a oes unrhyw wir berthynas rhwng y glawiad cyfartalog ac achosion o lygredd. Gallai'r gwaith hwn gael ei gysylltu â'r prosiect Dadansoddi Achosion Sylfaenol, e.e. edrych ar pam mae cynnydd yn nifer y digwyddiadau ym mis Mawrth

***Pwynt gweithredu 3: Paratoi naratif drafft i gyd-fynd â rhyddhau ystadegau ar lygredd amaethyddol yn y dyfodol a rhannu hwn â gweddill yr Is-grŵp (Brian Pawson a Meinir Wigley)***

Trafodwyd manteision sefydlu astudiaethau achos megis nodi ffermwyr a oedd wedi newid eu harferion gwaith o ganlyniad i waith Fforwm Rheoli Tir Cymru.

***Pwynt gweithredu 4: Nodi astudiaeth achos briodol o ffermwyr a all ddangos eu bod wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd maent yn rheoli perygl llygredd o ganlyniad i'r gwaith mae Fforwm Rheoli Tir Cymru yn ei hyrwyddo (Sara Jenkins)***

Bydd rhagor o waith i ymchwilio'n fanwl i natur ystadegau CNC ar

lygredd amaethyddol yn cael ei gynnal yn fuan. Caiff y canlyniadau eu rhannu â'r Is-grŵp. Eglurodd Meinir Wigley fod HTV wedi cysylltu â CNC fel rhan o ffilm y maent yn ei gwneud ar lygredd amaethyddol, ac o ganlyniad byddant yn cael mynediad at yr ystadegau diweddaraf ar lygredd amaethyddol.

Bydd angen datblygu metrigau addas er mwyn olrhain y cynnydd sy'n gysylltiedig â gwaith Fforwm Rheoli Tir  Cymru. Gallai'r rhain gynnwys nifer y ffermwyr sy'n mynychu digwyddiadau a dargedir ar lygredd amaethyddol , newidiadau i'r ystadegau ar lygredd amaethyddol, nifer y ffermwyr sy'n defnyddio cynlluniau rheoli maethynnau ac ati.

***Pwynt gweithredu 5: Bydd metrigau ar gyfer mesur effaith gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn cael eu trafod yng nghyfarfod yr Is-grŵp yn y dyfodol (Brian Pawson, Helen Haider a Marc Williams)***

## 5. Rhaglen Cyflawni Cyswllt Ffermio ar Lygredd Amaethyddol

Mae dyddiadau ar gyfer yr holl ddigwyddiadau a dargedir ar lygredd amaethyddol a gynhelir ar ffermydd gan Cyswllt Ffermio bellach wedi cael eu dosbarthu. Mae dau o'r rhain eisoes wedi cael eu cynnal, gyda phum ffermwr yn cymryd rhan yn y cyntaf a 33 o ffermwyr yn mynychu'r ail ddigwyddiad.  Mae swyddogion lleol CNC, swyddogion cyswllt Cyswllt Ffermio a'r Undebau Ffermio wedi bod yn annog ffermwyr i fynychu'r digwyddiadau. Bydd digwyddiad yn nalgylch Hirwaun yn cael ei gynnal ar 12 Hydref. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu rhai o'r mapiau ar gyfer Cyswllt Cymru sydd eu hangen i'w helpu i dargedu gwahoddiadau at y ffermydd cywir, ond mae angen nifer o fapiau eraill o hyd.

***Pwynt gweithredu 6: Sicrhau bod mapiau dalgylch ar gyfer yr holl gyrff dŵr sy'n cael eu cynnwys yn y digwyddiadau a dargedir ar lygredd amaethyddol yn cael eu hanfon at Cyswllt Ffermio (Marc Williams)***

Mae angen dealltwriaeth gliriach o ba ganlyniadau a fu yn sgil ffermwyr yn ceisio cyngor gan Cyswllt Ffermio neu'n mynychu un o'u digwyddiadau.  Mae Cyswllt Ffermio yn cynnal ymweliad dilynol (ar ôl un flwyddyn) â'r ffermydd hynny sy'n defnyddio eu gwasanaeth cynghori i weld pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud o ganlyniad i'r cyngor a roddwyd. Mae Swyddogion Datblygu Cyswllt Ffermio yn mynd ar drywydd y camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiadau fferm fel rhan o'r broses o annog ffermwyr i'w cwblhau (yn aml drwy ddefnyddio gwasanaethau Cyswllt Ffermio).

Ar hyn o bryd mae LANTRA yn datblygu modiwl e-ddysgu ar gyfer contractwyr taenu slyri. Mae'r cynnwys yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a gofynnir i Sarah Hetherington (CNC) i helpu gyda'r dasg hon.  Dylai'r

modiwl fod ar gael i'w gyflwyno ar ôl y Nadolig 2018.

## 6. Cynllun Gweithredu Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

Roedd llawer o aelodau'r Is-grŵp eisoes wedi mynychu cyfarfod cynllunio gweithredu Fforwm Rheoli Tir Cymru, a gynhaliwyd ar 8 Hydref yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth)

Bu rhagor o drafod ar weddill y camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r argymhellion yn adroddiad interim Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol.

***Pwynt gweithredu 7: Paratoi drafft cyntaf cynllun gweithredu Fforwm Rheoli Tir Cymru a'i ddosbarthu i aelodau'r Is-grŵp ar gyfer sylwadau pellach (Marc Williams a Brian Pawson)***

## 7. Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

- 7 Tachwedd (Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth)
- 12 Rhagfyr (Swyddfeydd Undeb Amaethwyr Cymru, Aberystwyth)

***Pwynt gweithredu 8: Gwneud trefniadau ar gyfer tri chyfarfod nesaf yr Is-grŵp (Helen Haider a Marc Williams)***

***Pwynt gweithredu 9: Dylid anfon unrhyw sylwadau gan aelodau mewn perthynas â'r cofnodion drafft o'r cyfarfod ar 11 Hydref at Helen Haider neu Marc Williams erbyn diwedd y dydd ar 31 Hydref. Bydd hyn yn galluogi cyfieithu'r fersiwn derfynol o'r cofnodion a'u lanlwytho ar wefan CNC.***

## 8. Cofnodion o'r cyfarfod ar 25 Medi a'r pwyntiau gweithredu nad ydynt wedi derbyn sylw

***Yn ychwanegol at Bwynt Gweithredu 5 o 25/9: Bydd Luke Davies yn cysylltu â Sara Jenkins os oes ffordd arall o ddarparu manylion cyswllt ffermwyr a thirfeddianwyr o fewn y 28 corff dŵr a nodwyd.***

## 9. Diweddariad ar weithgareddau perthnasol yn y dyddiadur

Gofynnwyd i CNC helpu HTV i baratoi rhaglen Gymraeg ar lygredd amaethyddol.  Mae cyfle hefyd i aelodau eraill o'r Is-grŵp gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r rhaglen.

Gofynnwyd i Zoe Henderson fynychu un o gyfarfodydd Grŵp Llywio Afon Dyfrdwy Uchaf a Chanol ar 13 Tachwedd ond nid yw hi ar gael ar y dyddiad hwnnw.

***Pwynt gweithredu 10: Dod o hyd i gynrychiolydd addas i fynychu cyfarfod nesaf Partneriaeth Afon Dyfrdwy Uchaf a Chanol (Brian Pawson)***

Bydd Rob McCall yn siarad ar faterion rheoleiddiol yng nghyfarfod Panel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol Dŵr Cymru ar 17 Hydref. Mae Arfon Williams (Cyswllt Amgylchedd Cymru) wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r eitem agenda berthnasol.

## 10. Unrhyw Fusnes Arall

**Eglurodd Brian Pawson fod yr holl ohebiaeth gan Gadeirydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (llythyron at Ysgrifennydd y Cabinet ac ati) wedi defnyddio pennawd llythyr CNC. Mae hyn wedi peri rhywfaint o ddryswch ynghylch union darddiad gwreiddiol y llythyr. Gellid datrys y broblem hon naill ai drwy anfon llythyron ar bapur plaen neu o dan logo Fforwm Rheoli Tir Cymru. Wedyn bu rhywfaint o drafod ynghylch a oedd angen ei logo ei hun ar yr Is-grŵp, neu a fyddai defnyddio cyfuniad o logos holl aelodau'r Is-grŵp yn ddigonol.**

***Pwynt gweithredu 11: Anfon logos aelodau unigol Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru at Meinir Wigley (Sara Jenkins)***

Yn dilyn cyfarfod yr Is-grŵp a gynhaliwyd yn Mhwllpeiran ar 25 Medi, anfonir llythyr at Cyswllt Amgylchedd Cymru i ddiolch i Arfon Williams a Stephen Marsh-Smith am eu cyflwyniadau. Bydd y llythyr hefyd yn amlinellu'r ffyrdd y gall Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a Cyswllt Amgylchedd Cymru weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol.

***Pwynt gweithredu 12:Anfon drafft o lythyr ymateb Cyswllt Amgylchedd Cymru at yr Is-grŵp ar gyfer sylwadau (Brian Pawson)***

Mae Hafren Dyfrdwy wedi cysylltu â CNC i ofyn a fyddai'n bosibl iddynt weithio gyda'r Is-grŵp. Mae ymateb dros dro wedi cael ei anfon a byddai cynrychiolydd o Hafren Dyfrdwy yn hapus i ddod i un o gyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol a gwneud cyflwyniad byr.

Fel rhan o'r fenter wirfoddol ar reoli maethynnau a arweinir gan NFU Cymru, cafodd tri ymgeisydd eu cyfweld yn ddiweddar am y swydd rheolwr prosiect. Mae ymgeisydd addas bellach wedi cael ei nodi a bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn fuan.

Bu trafodaeth fer ynghylch a yw fformat y llyfryn ‘When the Inspector Calls' a roddir i ffermwyr yn addas ar gyfer cyflwyno prif negeseuon yr Is-grŵp. Mae llythyr SAP yn cael ei anfon at bob ffermwr ddwywaith y flwyddyn, a byddai hyn yn gyfle gwell ar gyfer darparu gwybodaeth am arferion da ac ati.

***Pwynt gweithredu 13: Drafftio rhai geiriau addas i gynnwys y negeseuon allweddol i ffermwyr. Ceisio cynnwys hyn yn y llythyr SAP nesaf erbyn 25 Hydref (Meinir Wigley ac Andrew Chambers)***